CYNGOR CYMUNED BRO MACHNO

Nos Iau, 09 Ionawr 2025 – 7.30yh
Festri Salem, Penmachno

# cofnodion drafft

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 09 Ionawr 2025** am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiad o fuddiant
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Materion yn codi o’r cofnodion blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
5. Adolygiad o Bolisïau’r Cyngor
6. Gohebiaeth
7. Adroddiad cyllidol a praesept
8. Materion cynllunio
9. Materion eraill

**Presennol**:
Claire Roberts
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eifion Davies
Eryl Owain (Cadeirydd)
Geraint Thomas
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

**Ymddiheuriadau**:
Bethan Corrigan
Owen Davis

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd.

Mynegwyd cydymdeimlad i'r Clerc a'i ŵr yn dilyn colled drist tad Paul.

## Datganiad o fuddiant

Datganodd Dafydd Gwyndaf fuddiant fel cadeirydd pwyllgor lleol y Gymdeithas Cŵn Defaid Rhyngwladol. Roedd y gymdeithas wedi gofyn am gyfraniad a datganodd Dafydd Gwyndaf y byddai'n gadael y cyfarfod pan fyddai'r drafodaeth yn digwydd.

## Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod **19 Tachwedd 2024** fel rhai cywir, Dylan Davies yn cynnig a Dafydd Gwyndaf yn eilio.

## Materion yn codi:

**Toiled Cyhoeddus:** Adroddwyd bod un pris wedi ei dderbyn ar gyfer y llawr newydd. Penderfynwyd cysylltu â chwmni gwahanol a chymharu prisiau cyn bwrw ymlaen â'r gwaith.

**Cyffordd Ffordd Grenyn gyda'r B4406:** Adroddwyd bod y drych newydd yn ei le.

**Llwybr Cyhoeddus 55 – Y Waen:** Adroddwyd nad oedd y gwrych wedi ei thorri o hyd. Penderfynwyd cysylltu â Cartrefi Conwy eto.

**Diffibrilwyr:** Adroddwyd nad oes gan Gwm Penmachno unrhyw ddiffibrilwyr sy'n gweithio. Bydd diffibrilwyr, bocsys a chysylltiadau newydd i bŵer yn costio £4,394 + TAW. Penderfynwyd gwneud cais, ar frys, am arian grant.

**Bws Ysgol:** Adroddwyd bod y Cyngor Sir wedi dilyn y bws ysgol o Gwm Penmachno i Lanrwst heb weld unrhyw broblemau. Penderfynwyd gofyn iddynt ddilyn y bws prynhawn sy'n brysurach yn aml.

**SP Energy:** Adroddwyd bod y Cyngor Cymuned wedi trefnu cyfarfod ar gyfer yr holl randdeiliaid ddydd Mercher 15 Ionawr.

**Dathliad Nadolig:** Adroddwyd bod dathliad Nadolig y pentref wedi bod yn llwyddiant. Penderfynwyd gwneud trefniadau gwell ar gyfer codi'r goeden Nadolig cyn y Nadolig nesaf.

**Cyfarwyddwr Angladdau:** Adroddwyd nad oedd trefnydd angladdau lleol wedi talu ei fil o hyd. Penderfynwyd cysylltu ag ef eto.

## Adolygiad o Bolisïau'r Cyngor

Penderfynwyd mabwysiadu Polisi Ymddygiad Annerbyniol i ddarparu amgylchedd diogel i gynghorwyr a staff weithredu ynddo ac i sicrhau bod gwaith y cyngor yn cael ei wneud mewn modd effeithlon ac effeithiol. Claire Roberts yn cynnig a Dafydd Gwyndaf yn eilio.

## Gohebiaeth

**Rali Modur:** Adroddwyd bod nifer o gwynion wedi eu derbyn am rali modur sydd ar ddod gyda mwy na 90 o geir yn gyrru drwy'r pentref am ddwy awr o 3 o'r gloch y bore. Nid fu unrhyw ymgynghori â'r Cyngor Cymuned a deellir mai digwyddiad pwynt-i-bwynt oedd y rali yn hytrach na ras ac nad oes angen caniatâd gan y Cyngor Cymuned i'w threfnu.

**Grŵp Tai Penmachno:** Adroddwyd y byddai'r grŵp yn hoffi cynrychiolaeth gan y Cyngor Cymuned. Gwirfoddolodd Claire Roberts yn garedig.

**To Stabl**: Adroddwyd bod pryder wedi ei fynegi am y to stabl yn y goedwig i'r de o 'Pen Y Ffridd Llanerchigwynion'. Penderfynwyd cysylltu â CNC sy'n rheoli'r tir cyfagos.

**Rhandiroedd:** Adroddwyd bod y Gymdeithas Rhandiroedd wedi gofyn am gyfraniad tuag at eu cronfeydd. Penderfynwyd peidio cyfrannu ond eu cyfeirio at elusen Penmachno.

## Adroddiad Cyllidol a Praesept

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn. Penderfynwyd adolygu taliadau i'r contractwr sy'n cynnal y mynwentydd.

DRAFT

Cytunwyd ar praesept o £16,094 ar gyfer 2025-26. Claire Roberts yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

## Materion Cynllunio

**Tŷ Mawr:** Adroddwyd bod y cyngor wedi ysgrifennu i gefnogi newidiadau i gais cynllunio ar gyfer Tŷ Mawr, Wybrnant.

## Materion eraill

**Carrog:** Adroddwyd bod problem gyda llifogydd o drac newydd y goedwig i'r de o Carrog, i'r gorllewin o Ffordd Hafod Rhedwydd. Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle gyda CNC.

**Cwlfert Ffordd Groesffordd**: Adroddwyd bod cwlfert sydd wedi'i rwystro yn achosi problemau ar Ffordd Groesffordd ger llwybr cyhoeddus 55. Penderfynwyd adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

**Twll yn y Ffordd:** Adroddwyd bod twll yn y ffordd ger y lloches bws yng nghanol Penmachno. Penderfynwyd adrodd y mater i'r Cyngor Sir.

**Baw Cŵn:** Adroddwyd bod problem gyda baw cŵn ar Ffordd Ty'n Y Ddol. Penderfynwyd gosod arwydd i rybuddio am ddirwyon am beidio clirio ar ôl cŵn.

Gadawodd Dafydd Gwyndaf y cyfarfod.

**Sioe Cŵn Defaid**: Adroddwyd bod Treialon Cenedlaethol Cŵn Defaid Cymru wedi gofyn am gyfraniad tuag at eu cystadleuaeth haf. Penderfynwyd cyfrannu £100.

**Llythyrau gan Breswylydd Bro Machno:** Adroddwyd bod y cyngor wedi derbyn cyngor proffesiynol yn dilyn llythyrau gan breswylydd yn gwneud datganiadau a chyhuddiadau amrywiol. Penderfynwyd ysgrifennu ymateb llawn a therfynol i'r preswylydd gan gynnwys copi o Bolisi Ymddygiad Annerbyniol y cyngor cymuned.

**Cyfarfod nesaf**
Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor nos Iau 13 Mawrth 2025, 7.30 yn Festri Capel Salem.

DRAFT